**Adroddiad i'r:** **Cyngor Sir**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **9 Hydref 2012**

**Aelod Arweiniol / Swyddog: Y Cynghorydd Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad / Alan Smith, Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad**

**Awdur yr Adroddiad:** **Tony Ward, Rheolwr Tîm Gwella Corfforaethol**

**Teitl: Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych 2012-17**

---

## 1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Cynllun Corfforaethol drafft y cyngor 2012-17.

## 2. Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad i gymeradwyo fersiwn drafft terfynol y Cynllun Corfforaethol 2012-17, ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir, yn amodol ar unrhyw newidiadau a gytunir, bod yr Aelodau yn cymeradwyo drafft terfynol y Cynllun Corfforaethol 2012-17, er mwyn galluogi cyfieithu a chyhoeddi'r ddogfen.

## 4. Manylion yr adroddiad

Bwriad y Cynllun Corfforaethol drafft 2012-17 yw bod yn ddogfen strategol lefel uchel i arwain cyfeiriad y Cyngor am y 5 mlynedd nesaf. Mae felly wedi ei ddatblygu gyda hynny mewn golwg ac nid yw'n cynnwys manylion popeth y bydd y Cyngor yn ei wneud yn ystod y 5 mlynedd nesaf i gefnogi'r blaenoriaethau corfforaethol. At hyn, gan ein bod eisiau i'r Cynllun Corfforaethol fod yn ddogfen hygyrch, nid ydym yn bwriadu cynnwys manylion yr holl ddangosyddion a mesurau perfformiad y byddwn yn eu defnyddio i arfarnu ein llwyddiant. Byddwn felly yn cynhyrchu dogfen ar wahân a fydd yn diffinio'r pecynnau y byddwn yn eu defnyddio i fonitro'r Cynllun. Byddwn hefyd yn cyhoeddi Dogfen Cyflawni'r Cunllun Corfforaethol bob blwyddyn i roddi manylion yr hyn rydym yn disgwyl ei gyflawni yn y flwyddyn ariannol benodol honno i gefnogi ein blaenoriaethau.

Mae'r Tîm Gwella Corfforaethol ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r gwasanaethau i ddilyn i fyny ar y blaenoriaethau eraill a adnabuwyd gan Aelodau unigol yn ystod y digwyddiad Cynllun Corfforaethol ar 31ain Gorffennaf. Bydd dogfen yn dangos sut

mae'r gwasanaethau yn ymateb i'r blaenoriaethau hynny ar hyn o bryd yn cael ei dosbarthu i'r Aelodau maes o law.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn pennu blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer cyfnod y cyngor hwn.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?**

Mae'r Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn cynnwys strategaeth ariannol 5 mlynedd sy'n amlinellu'r buddsoddiad cyfalaf y rhagwelir sydd ei angen i gyflawni'r blaenoriaethau. Datblygwyd y strategaeth hon ar ôl gweithdy Aelodau ar 11eg Medi a arweiniwyd gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau.

**7. Pa ymgynghori a fu ac a ymgymerwyd ag ymarfer Sgrinio Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb?**

Cyhoeddwyd y set ddrafft o flaenoriaethau corfforaethol ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd yn ystod Awst 2012. Daeth y cyfnod ymgynghorol hwnnw i ben ar 11eg Medi 2012 ac mae'r holl sylwadau a dderbyniwyd yn Atodiad II i'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, rhoddwyd tan Hydref 5ed 2012 i'r Cynghorau Tref a Chymuned ymateb, oherwydd nad oeddynt yn cyfarfod yn ystod Awst. Cyflwynir rhestr lawn o'r sylwadau o'r ymgynghoriad, gan gynnwys sylwadau Cynghorau Tref a Chymuned, felly, i'r Cyngor ar 9fed Hydref.

Ymgynghorwyd â'r Aelodau mewn nifer o ffyrdd yn ystod y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol drafft ers pan gytunwyd y set ddrafft o flaenoriaethau corfforaethol gan yr Aelodau ar 31ain Gorffennaf:

- Grŵp Rheoli Ansawdd, 22ain Awst (gwirfoddolwyr o'r digwyddiad ar 31ain Gorffennaf)
- Cyfarfod Briffio'r Cabinet, 10fed Medi
- Sesiwn Anffurfiol y Cyngor: Ariannu'r Cynllun Corfforaethol, ar 11eg Medi
- Pwyllgor Craffu Perfformiad, ar 20fed Medi 2012

Mae'r Tîm Gwella Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â'r gwasanaethau, wedi ymgymryd ag Asesiad o Effaith y Cynllun Corfforaethol 2012-17 ar Gydraddoldeb. Mae'r asesiad hwn yn rhoi cyd-destun i'r Cynllun Corfforaethol ac yn helpu'r Aelodau i ddeall effaith bosibl y cynllun ar bobl sy'n rhannu nodweddion a rennir. Cynhwysir casgliadau'r asesiad hwn yn Atodiad III i'r adroddiad hwn.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol**

Mae'r cynllun yn cynnwys cynlluniau gwario lefel uchel ar gyfer y pum mlynedd nesaf a bydd yn pennu'r cyd-destun ar gyfer y Cynllun Ariannol Tymor Canol a gyflwynir i'r aelodau. Mae'r buddsoddiad a amlinellwyd yn uchelgeisiol ond yn angenrheidiol os yw'r Cyngor i barhau i wella gwasanaethau allweddol. Mae'r Cyngor yn wynebu

blynyddoedd anodd mewn amgylchfyd ariannol heriol ac os bydd angen, mae'r cynlluniau yn ddigon hyblyg i gael eu newid os bydd y sefyllfa ariannol yn newid.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i’w lleihau?**

Mae’r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd, a bydd hyn yn cynnwys unrhyw risgiau sy’n gysylltiedig â’r Cynllun Corfforaethol newydd, unwaith y bydd wedi ei gytuno. Cyflwynir y Gofrestr Risg ddiwygiedig i’r Pwyllgor Craffu Pefformiad ar 29ain Tachwedd 2012.

**10. Pŵer i Gymryd y Penderfyniad**

Mae’r Cynllun Corfforaethol yn elfen allweddol o Raglen Gwella Cymru (2010), sy’n cael ei chynnal gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.